

Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru

Mae'n Bryd Cyflawni dros Bobl
Ifanc yng Nghymru

Sicrhau Model Cyflawni Cynaliadwy ar
gyfer Gwasanaethau Gwaith Ieuenctid
yng Nghymru

Adroddiad cyntaf

Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth neu i sôn am eich profiad o wasanaethau ieuenctid.

Y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro
Cangen Ymgysylltu Ieuenctid
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: youthworkboard@llyw.cymru

 [@LIC_Addysg](https://twitter.com/LIC_Addysg)

 [Facebook/AddysgCymru](https://www.facebook.com/AddysgCymru)

Cynnwys

- 1. Cyflwyniad**
- 2. Argymhellion**
 - **Sail resymegol dros y cyfeiriad y dylid ei ddilyn**
- 3. Yr hyn mae pobl ifanc yn ei ddweud wrthym am waith ieuenctid**
- 4. Dull seiliedig ar hawliau o ymdrin â gwaith ieuenctid yng Nghymru**
- 5. Ymateb gwaith ieuenctid i COVID-19**
- 6. Cyfraniad gwaith ieuenctid ar draws portffolios y Llywodraeth**
- 7. Adeiladu momentwm**
- 8. Gyda diolch i ...**

1. CYFLWYNIAD

“Pan dw i’n teimlo ar goll, yn ofnus ac ar fy mhen fy hun, mae gwaith ieuenctid yn gartref i mi.” Person ifanc.

Mae Gwaith Ieuenctid yng Nghymru wedi dangos ei werth i bobl ifanc dro ar ôl tro, er bod effaith cyni wedi bod yn andwyol i’r sector. Mae gwaith ieuenctid wedi dangos ei gydnerthedd, ond mae’n sefyll ar dir simsan.

Mae effaith COVID-19 ar bobl ifanc yn enfawr. Yn sgil cyfnodau clo ledled y DU, cyfyngiadau lleol a’r cyfnod atal byr yng Nghymru, gwelwyd gwaith ieuenctid yn ymateb i’r her. Mae’n amlwg fod angen gwasanaethau gwaith ieuenctid er mwyn gallu ymateb i bobl ifanc a’u cynorthwyo, ond os yw’r sector am oroesi a ffynnu rhaid ei drawsnewid yn sylfaenol.

Yn yr adroddiad cyntaf hwn awn ati i nodi’r hyn rydym wedi’i ddysgu yn y ddwy flynedd ddiwethaf wrth weithio yn y gwagle rhwng Gweinidogion, swyddogion y llywodraeth, pobl ifanc a gwasanaethau (gwasanaethau gwaith ieuenctid a gwasanaethau ehangach sy’n cynorthwyo pobl ifanc). Os ydym o ddifrif ynglŷn â diogelu a datblygu gwasanaethau gwaith ieuenctid ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, rhaid i ni gymryd camau yn awr i ddiogelu ei ddyfodol.

Mae’r pandemig wedi darparu mwy fyth o dystiolaeth fod gwaith ieuenctid yn wasanaeth hanfodol i bobl ifanc. Ond rhaid i ni fod yn glir. Nid oes unrhyw gynig cyffredinol yng nghyswllt gwaith ieuenctid i’w gael ar gyfer pob person ifanc rhwng 11-25 oed sy’n byw yng Nghymru. Credwn fod yn rhaid i’r hawl gael ei gwireddu gyda gweledigaeth a strategaeth glir ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu ein gwasanaethau gwaith ieuenctid.

Bu’r ‘cipolwg’ a gafwyd ar waith ieuenctid yn ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg¹ yn sbardun cadarnhaol, ynghyd â’r gwaith a gyhoeddodd Margaret Jervis yn 2018, sef *Ein Dyfodol* –

¹ Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Pa fath o wasanaeth ieuenctid y mae Cymru ei eisiau? Adroddiad yr ymchwiliad i Waith Ieuenctid, Rhagfyr 2016

*Adolygiad o Ymestyn Hawliau.*² Croesawn y cymorth mae Llywodraeth Cymru yn ei roi yn awr i waith ieuenctid. Rydym eisïau adeiladu ar yr ymrwymiad hwnnw a chynnig her.

Mae'r argymhellion a nodwn isod yn uchelgeisiol, yn feiddgar ac yn bellgyrhaeddol, ac maent angen ymrwymiad a gweithredu. Ein cylch gwaith fel Bwrdd yw sefydlu model cyflawni cynaliadwy ar gyfer ieuenctid yng Nghymru. Er nad yw ein gwaith wedi cael ei gwblhau eto, mae'n amlwg i ni i ba gyfeiriad y dylai fynd. Rydym yn argymhell:

- deddfwriaeth newydd.
- corff cenedlaethol i ysgwyddo cyfrifoldeb dros raglen o newid gyda dull partneriaeth rhanbarthol i lywio a datblygu'r gwaith o gyflawni'n lleol.
- datblygu model ariannu newydd.
- fframwaith arloesi a chanlyniadau ar gyfer gwaith ieuenctid.
- cynnig digidol newydd yn ymwneud â gwaith ieuenctid ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, a fydd yn cynnwys sefydlu gwasanaeth gwybodaeth i ieuenctid a cherdyn hawliau ieuenctid.

Nid esgor ar newid er ei fwyn ei hun yw ein bwriad trwy wneud hyn. Ein canolbwynt bob amser yw sut gellir cynnal gwaith ieuenctid er mwyn cyfoethogi bywydau pob person ifanc.

Awn ati i bennu'r argymhellion hyn yn awr yn y gobaith y gallwn weithio yn ystod y flwyddyn sydd i ddod gyda phobl ifanc, Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac awdurdodau lleol, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) a sefydliadau gwaith ieuenctid gwirfoddol, yn ogystal â'r sefydliadau sy'n dibynnu ar bartneriaethau gwaith ieuenctid, er mwyn troi'r argymhellion hyn yn realiti.

Keith Towler

Dusty Kennedy, Efa Gruffudd Jones, Eleri Thomas

Jo Sims, Sharon Lovell, Simon Stewart

Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru

² <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-04/ein-dyfodol-adolygiad-o-ymestyn-hawliau.pdf>

2. ARGYMHELLION

Sicrhau Model Cyflawni Cynaliadwy ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru – Y Cyfeiriad y Dylid ei Ddilyn

Credwn fod yna faterion yn ymwneud â llywodraethu a chyflawni y dylid ymdrin â nhw, a gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

Argymhellion o ran llywodraethu

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

1. Sefydlu strwythur llywodraethu a gaiff ei arwain gan bobl ifanc ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.
2. Sefydlu sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.
3. Pennu gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru trwy benodi gweinidog yn y Cabinet a chanddo bortffolio sy'n cynnwys gwaith ieuenctid.
4. Adolygu'r model ariannu ar gyfer gwaith ieuenctid.
5. Paratoi i sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.
6. Sefydlu partneriaethau cyflawni rhanbarthol er mwyn cynorthwyo i gyflawni'n lleol.
7. Sefydlu fframwaith arloesi a chanlyniadau ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.
8. Cryfhau deddfwriaeth bresennol Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) er mwyn cau unrhyw fylchau mewn meini prawf cofrestru.

Argymhellion o ran cyflawni

Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

9. Gweithio gyda'r sector i gomisiynu gwasanaeth gwybodaeth i ieuenctid ar gyfer Cymru, fel rhan o gynig digidol yn ymwneud â gwaith ieuenctid.
10. Treialu a chyflwyno cerdyn 'Hawliau Ieuenctid' ar gyfer Cymru.
11. Cynyddu faint o wasanaethau gwaith ieuenctid sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a chefnogi prosiect peilot i

lywio'r gwaith. Dylid sicrhau hefyd fod darparu gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg yn flaenoriaeth i'r corff cenedlaethol dros waith ieuenctid yng Nghymru yn y dyfodol.

12. Adeiladu ar yr ymrwymiad i ddatblygu a hyrwyddo'r proffesiwn gwaith ieuenctid gyda strwythur gyrfaedd sy'n cynnig cyfleoedd i gamu ymlaen.
13. Sefydlu brand gwaith ieuenctid yng Nghymru, ynghyd ag adnodd i gydlyn a hyrwyddo'r sector gwaith ieuenctid ymhlith ei bartneriaid a hwyluso cyfathrebu ar draws y sector ei hun.

Sail Resymegol dros y Cyfeiriad y Dylid ei Ddilyn

1. Dylai llywodraeth Cymru sefydlu strwythur llywodraethu a gaiff ei arwain gan bobl ifanc ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru.

“Rhoi i bobl ifanc rywle lle gallan nhw ddylanwadu ar beth fydd yn digwydd a gadael iddyn nhw ddylanwadu ar y gwaith ieuenctid maen nhw'n rhan ohono.”

Person ifanc.

Yn achos yr holl drefniadau strwythurol a nodir isod, tybir mai dull a gaiff ei arwain gan bobl ifanc a roddir ar waith. Golyga hyn fod angen i ni sefydlu dull y gall pobl ifanc fod yn rhan uniongyrchol ohono wrth gynllunio a chyflawni gwasanaethau gwaith ieuenctid. Dyma rywbeth mae pobl ifanc eu hunain wedi galw amdano drosodd a throsodd – o gael eu cynnwys ar gyrff cenedlaethol i gael dweud eu dweud o ran sut caiff eu gwasanaethau lleol eu darparu. Yng Nghymru, mae gennym hanes blaenorol y gallwn ymfalchïo ynddo mewn perthynas â chyfranogiad pobl ifanc ac arferion seiliedig ar hawliau. Mae cynllun cyfranogiad ac ymgysylltiad ieuenctid, a gaiff ei gynllunio ar y cyd gan bobl ifanc, yn ganolog i'r hyn a ddisgrifiwn isod.

Mae Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth 'Mae Pobl Ifanc yn Ffynnu' wedi bod yn hollbwysig o ran galluogi a chynorthwyo pobl ifanc i siapio Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru. Mae'r neges yn glir – mae pobl ifanc eisiau bod yn rhan o brosesau penderfynu a chymryd rhan yn y gwaith o lywodraethu a chynllunio. Felly, argymhellwn ei bod hi'n eithriadol o bwysig i Gymru gael strwythur llywodraethu a gaiff ei arwain gan bobl ifanc.

2. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru

“Mae rhoi gwybod i bobl beth yw gwaith ieuenctid a mynd ati i wella gwaith ieuenctid... yn helpu pobl eraill i ddeall beth yw gwaith ieuenctid a sut rydyn ni’n mynd i’w gyflawni.”
Person ifanc.

Mae’r sylfaen ddeddfwriaethol bresennol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yn wan ac yn amwys. Nid yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 – a ddiwygiwyd er mwyn galluogi *Ymestyn Hawliau*, sef polisi ieuenctid blaenllaw Cymru ar y pryd, er mwyn ‘cyrraedd’ pobl ifanc hyd at 25 oed – yn cyfeirio’n benodol at waith ieuenctid. Yn hytrach, mae’n ystyried gwaith ‘cymorth ieuenctid’. Mae’r rhan fwyaf o bobl yn cyfeirio at y ddogfen ganllawiau *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru* (2002)³, gan ei bod yn sôn yn benodol am waith ieuenctid yng nghyd-destun cynorthwyo pobl ifanc.

Mae gwendid y sylfaen ddeddfwriaethol yn rhoi gwaith ieuenctid mewn perygl o ddioddef mwy o doriadau yn ei gyllideb, ac mae hyn yn gam â’r proffesiwn ar draws y sector a gynhelir a’r sector gwirfoddol. (I gael adolygiad defnyddiol o gyd-destun polisi Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, gweler: *Cyd-destun Polisi Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, 2020*⁴ a baratowyd gan Grŵp Llywio Rhaglen Arweinyddiaeth a Rheoli Gwaith Ieuenctid Cymru.)

Yn ein barn ni, byddai sylfaen ddeddfwriaethol gref yn arwain at wireddu cynnig cyffredinol i bob person ifanc 11-25 oed.

Rhaid i statws proffesiynol gwaith ieuenctid yng Nghymru gael ei warchod, a rhaid iddo gael ei ddiogelu mewn deddfwriaeth fel gwasanaeth allweddol hanfodol i bobl ifanc 11-25 oed. Ymhellach, dylai’r ddeddfwriaeth fynd ati i sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru, pennu fframwaith arloesi ac atebolrwydd, ymrwymo i fodel ariannu, integreiddio neu sefydlu partneriaethau rhanbarthol i gefnogi cyflawni’n lleol, sefydlu rhwydwaith gwybodaeth i ieuenctid ar gyfer Cymru, a gofalu y

³ Adran 123 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000, *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc o 11 i 25 oed yng Nghymru*. 2002

⁴ <https://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=2795>

bydd pobl ifanc yn cael eu cynnwys wrth lywodraethu gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i weithio gyda Llywodraeth Cymru, pobl ifanc a'r sector er mwyn dechrau gweithio ar fodel deddfwriaethol.

3. Dylai Llywodraeth Cymru bennu gweledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru trwy benodi gweinidog yn y Cabinet a chanddo bortffolio sy'n cynnwys gwaith ieuenctid.

"Dylai gwaith ieuenctid fod ag arweinyddiaeth gref ar bob lefel a bydd yn elwa ar gydweithio."

Person ifanc.

Mae angen i Lywodraeth Cymru bennu gweledigaeth ar gyfer cyflawni gwasanaethau a chynorthwyo plant a phobl ifanc ar draws pob portffolio, a chredwn y dylid cryfhau hyn ymhellach trwy benodi gweinidog yn y Cabinet: Gweinidog Plant a Phobl Ifanc. Credwn yn gryf y dylid sefydlu cyfrifoldeb dros bennu gweledigaeth gyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc, gan oruchwylio a chraffu ar y dasg o gyflawni gwasanaethau a chymorth, a chan sicrhau y caiff dull seiliedig ar hawliau ei roi ar waith ar draws portffolios, gyda ffocws ar wella a chyfoethogi bywydau pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. A chredwn mai Llywodraeth Cymru a ddylai fod yn gyfrifol am hyn.

4. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r model ariannu ar gyfer gwaith ieuenctid

"Os nad ydych chi'n ariannu gwaith ieuenctid, dydych chi ddim yn ariannu fy nyfodol i... mae 'cynaliadwy' yn golygu pethau hirdymor a pharhaol."

Person ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu gwaith ieuenctid awdurdodau lleol trwy'r Grant Cymorth Ieuenctid a'r Grant Cynnal Refeniw i Awdurdodau Lleol. Mae'r Grant Cymorth Ieuenctid wedi'i seilio ar gynllun cytunedig i gyflawni gwaith ieuenctid, ac mae'r Grant Cynnal Refeniw ar gael i awdurdodau lleol i'w wario ar sail blaenoriaethau a bennir ganddynt yn lleol. Er bod y Grant Cynnal Refeniw yn cynnwys swm tybiannol ar gyfer gwasanaethau ieuenctid, o dro i dro mae awdurdodau lleol yn gwario mwy na'r

swm hwn, ond o dro i dro maent yn gwario llai. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu'r trydydd sector hefyd trwy'r Cynllun Grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol.

Mae'r Grant Cynnal Refeniw wedi gostwng o £44.2m yn 2010/11 i £31.4m yn 2018/19. Rhoddodd Llywodraeth Cymru £6.2m yn ychwaneg tuag at wasanaethau gwaith ieuenctid craidd, a'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid yn 2019/20 a 2020/21, a £2.5m yn ychwaneg tuag at iechyd meddwl a llesiant a £3.7m ar gyfer digartrefedd ieuenctid, gan ddod â'r cyfanswm i £10m. Bydd y Cynllun Grantiau Cyrff Ieuenctid Gwirfoddol Cenedlaethol a chynllun grantiau Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol yn darparu £784k yn 2020/21.

Nid yw'r arian hwn yn egluro mewn unrhyw ffordd gyfanswm y gwariant ar waith ieuenctid yng Nghymru, ond mae'n ddylanwad pwysig o ran denu arian o ffynonellau eraill. Mae'r sector gwirfoddol yn gweithio'n gyson i godi arian sydd wedi esgor ar werth economaidd ychwanegol sylweddol i Gymru, gan sicrhau arian ar gyfer costau refeniw a rhywfaint o gostau cyfalaf (ymddiriedolaethau, sefydliadau, cyfraniadau o fath arall, Erasmus+, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, y sector preifat).

Er bod y Bwrdd wedi gallu dylanwadu ar feini prawf y Grant Cymorth Ieuenctid, rydym o'r farn nad yw'r trefniadau presennol mewn perthynas â'r holl arian sydd ar gael yn esgor ar yr enillion gorau. Rydym wedi gweld gostyngiad yng ngwariant gwirioneddol awdurdodau lleol ar waith ieuenctid er gwaethaf dyraniad y Grant Cynnal Refeniw, ac mae sefydliadau'r sector gwirfoddol yn cael trafferthion. Nid yw hon yn sefyllfa gynaliadwy.

Mae'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro mewn sefyllfa dda i gynnal adolygiad o gyllid ac mae'n ceisio ymateb gan Lywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol a'r sector gwirfoddol i ymrwymo i ganfod model ariannu newydd.

Er mwyn drafftio deddfwriaeth sy'n amlinellu sail statudol i waith ieuenctid, bydd angen adnoddau. Credwn fod angen i ni feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r elfennau a gaiff eu hariannu ar hyn o bryd er mwyn llywio a chytuno ar fodel newydd ar gyfer y dyfodol.

5. Dylai Llywodraeth Cymru baratoi i sefydlu corff cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru

“Mae hyn yn ymwneud â phobl ifanc yn gweithredu dros bobl ifanc... ond mae hefyd yn dod â gwahanol sefydliadau at ei gilydd, fel bod pawb yn cytuno gyda’i gilydd.”
Person ifanc.

Yn ystod y pandemig, gwelsom pa mor bwysig yw gwaith ieuenctid i bobl ifanc. Mae sefydlu’r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro wedi arwain at wireddu cylch gwaith ehangach mewn ymateb i ddisgwyliadau’r sector. Mae’r Bwrdd wedi gweithio’n agos gyda swyddogion Cangen Ymgysylltu ag Ieuenctid Llywodraeth Cymru ac ar draws y sector gwaith ieuenctid yng Nghymru, a chafwyd peth llwyddiant; ond ni fydd modd cynnal y galwadau ar yr ‘uned’ ganolog hon yn yr hirdymor.

Mae angen cydnabod y bydd yn rhaid i gorff canolog ar gyfer gwaith ieuenctid gael adnoddau. Yn ein tyb ni, byddai statws corff o’r fath yn elwa ar fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru. Byddai’n rhaid i’r corff cenedlaethol gynrychioli’r sector, gan roi pwysoliad cyfartal i aelodau awdurdodau lleol a gynhelir ac aelodau’r sector gwirfoddol.

Cydnabyddwn fod atebolrwydd democratig yn bwysig, felly gallwn weld hyn yn cael ei roi ar waith ar sail partneriaeth gymdeithasol (awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a’r sector preifat), gydag ymreolaeth ar gyfer cyflawni’n lleol, a chan fod yn atebol i bobl ifanc, aelodau etholedig ac ymddiriedolwyr.

Cydlynw, datblygu a darparu cymorth i wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru – dyna fyddai cylch gwaith y corff cenedlaethol. Dylai hefyd oruchwylio cyllid ac atebolrwydd, hyfforddiant ac achredu, dylai gefnogi arferion arloesol, dylai roi dull seiliedig ar hawliau ar waith, a dylai gynorthwyo i ddatblygu fframwaith canlyniadau, gan fynd ati yr un pryd i ysgwyddo cyfrifoldeb dros gyflawni Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn y Gymraeg a’r Saesneg.

Mae oes y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro wedi cael ei hymestyn i 2021, ond bydd angen rhoi ystyriaeth i gorff cysgodol a all weithredu yn ystod y cyfnod pontio rhwng gwaith y Bwrdd a sefydlu corff cenedlaethol trwy ddeddfwriaeth.

6. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu partneriaethau cyflawni rhanbarthol er mwyn cynorthwyo i gyflawni'n lleol

“Trwy sicrhau bod gwaith ieuenctid yn canolbwyntio ar ddatblygu pobl ifanc, rydyn ni'n adeiladu dyfodol gwell i Gymru.”
Person ifanc.

Arweiniodd y gwaith o sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Awdurdodau Lleol at dranc Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Mae'r sector gwaith ieuenctid yn dweud yn aml fod colli Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc wedi bod yn gamgymeriad strategol – ceir diffyg ffocws ar blant a phobl ifanc ar lefel uwch, ac mae hyn yn arwain at wanhau'r broses o gyflawni'n lleol. Mae Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol⁵ yn dod â byrddau ieuchyd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector ynghyd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth pobl eu hardal. Nid ydym wedi gweld llawer o dystiolaeth i awgrymu bod gwasanaethau gwaith ieuenctid yn mynychu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus na Byrddau Partneriaethau Rhanbarthol, nac yn cyfrannu at eu trafodaethau.

Mae gan Gyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol strwythur rhanbarthol, a hefyd mae Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru yn ystyried dull rhanbarthol.

Credwn fod yna lawer i'w ddweud o blaid sefydlu dull rhanbarthol unedig o gydweithio a mynd i'r afael â gwaith cynllunio strategol amlasiantaethol, gyda phwyslais allweddol ar blant a phobl ifanc. I waith ieuenctid, byddai'n rhaid i hyn fod yn gysylltiedig â swyddogaeth gydlynol y corff cenedlaethol, fel y gellir goruchwyllo a chefnogi trefniadau cyflawni lleol.

7. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fframwaith arloesi a chanlyniadau ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru

“Mae Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru yn dweud y bydd yn darparu cyfleoedd mewn mannau diogel, yn gwneud gwaith ieuenctid yn hygyrch, yn darparu cymorth i weithwyr ieuenctid, ac yn ei gwneud hi'n bosibl i waith ieuenctid gael ei werthfawrogi a'i ddeall, ac mae'n dweud mai dyma fydd y model hirdymor ar gyfer cyflawni gwaith ieuenctid.” Person ifanc.

⁵ Fe'u sefydlwyd gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014

Fel mae pethau, caiff darparwyr gwaith ieuenctid eu cynnwys mewn rhai archwiliadau fel partneriaid yn y dasg o gyflawni gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw gwaith ieuenctid wedi bod yn destun cyfundrefn archwilio. Mae Estyn, sef yr arolygiaeth dros addysg a hyfforddiant yng Nghymru, eisoes wedi ymrwymo i ddatblygu dull fframwaith ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Croesawn hyn fel cam cadarnhaol ac edrychwn ymlaen at weithio gydag Estyn, pobl ifanc a'r sector i ddatblygu rhywbeth a fydd yn annog arloesi ac yn sefydlu fframwaith canlyniadau. Ymhellach, ystyriwn fod hwn yn gyfle i hyrwyddo proffesiynoldeb a datblygu arferion oddi mewn i waith ieuenctid, yn unol â *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion*⁶.

8. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau deddfwriaeth bresennol Cyngor y Gweithlu Addysg (EWC) er mwyn cau unrhyw fylchau mewn meini prawf cofrestru

“Gyda’r cymorth iawn, fe allwch chi gyflawni unrhyw beth, ac mae gweithwyr ieuenctid yn darparu’r cymorth hwnnw.”
Person ifanc.

Mae’r ddeddfwriaeth sy’n sail i ddull Cyngor y Gweithlu Addysg o gofrestru staff gwaith ieuenctid yn cynnwys bylchau, ac fe allai’r bylchau hyn arwain at risgiau diogelu i bobl ifanc, rhieni, gwarcheidwaid a’r cyhoedd. I grynhoi, mae gweithwyr nad ydynt wedi’u cofrestru yn mynd i’r afael â gwaith ieuenctid am dâl, ond maent yn gweithio mewn lleoliadau statudol a gwirfoddol. Nid ydynt wedi ennill cymwysterau ffurfiol eto. Hefyd, ceir ymarferwyr nad ydynt wedi’u cofrestru, ac mae’r rhain yn gweithio mewn lleoliadau y tu allan i’r sectorau statudol a gwirfoddol, er enghraifft mewn cymdeithasau tai, sefydliadau ffydd neu leoliadau preifat. Nid yw hyn yn wir yn achos ysgolion, addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, lle mae’r holl staff sy’n cyflwyno neu’n cynorthwyo gyda’r gwaith addysgu a’r gwaith dysgu wedi’u cofrestru.

Rydym yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddiwygio’r ddeddfwriaeth bresennol er mwyn ymestyn yr angen i gofrestru

⁶ *Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion* Hydref 2018, Y Grŵp Adolygu Gwaith Ieuenctid yng Nghymru (Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol, Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru, Cyngor y Gweithlu Addysg)

gyda Chyngor y Gweithlu Addysg at fwy o bobl yng ngweithlu'r gwasanaethau gwaith ieuenctid⁷.

Argymhellion o ran cyflawni

9. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector i gomisiynu gwasanaeth gwybodaeth i ieuenctid ar gyfer Cymru, fel rhan o gynnig digidol yn ymwneud â gwaith ieuenctid

"Sut wyt ti i fod i wybod beth gei di ohono yn y pen draw os dwyt ti ddim hyd yn oed yn gwybod?... os ydyn ni'n gwybod beth mae gennym ni hawl i'w gael, yna fe fyddwn ni'n gwybod os chawn ni mohono."

Person ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymestyn cynnig cyffredinol yn ymwneud â chymorth gwaith ieuenctid i bobl ifanc 11-25 oed.

Mae Meic⁸ yn darparu llinell gymorth gyfrinachol sy'n cynnig eiriolaeth a chyngor i bobl ifanc hyd at 25 oed. Fodd bynnag, nid oes gennym wasanaeth gwybodaeth cenedlaethol mwyach. Rydym wedi darganfod bod pobl ifanc yn cael trafferth i ddod o hyd i'r hyn sydd ar gael iddynt yn lleol, ledled Cymru ac yn rhyngwladol. Mae diffyg seilwaith cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid digidol a gwybodaeth yn tanseilio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r cynnig cyffredinol ar gyfer gwaith ieuenctid.

Fe wnaeth y diffyg seilwaith cenedlaethol hwn mewn perthynas â gwaith ieuenctid digidol a gwybodaeth lesteirio ymdrechion y sector yn fawr wrth ymateb i heriau'r pandemig Covid-19. Roedd y cyfyngiadau angenrheidiol o ran gwaith ieuenctid wyneb yn wyneb yn golygu mai cyfryngau digidol oedd yr unig opsiwn i ran helaeth o waith ieuenctid yng Nghymru. Er bod ymarferwyr a gwasanaethau unigol yn y sector a gynhelir a'r sector gwirfoddol wedi ymateb yn frwd, yn greadigol ac yn ddygn wrth geisio cyrraedd pobl ifanc trwy ddefnyddio'r cyfryngau digidol, aethant ati i wneud hyn heb fframweithiau, canllawiau na safonau cenedlaethol ar gyfer sut i weithio'n ddiogel ac yn effeithiol.

⁷ Nodir y gofynion presennol yng *Ngorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016*

⁸ <https://www.meiccymru.org>

Daeth yn amlwg hefyd fod pryderon a geid eisoes ynglŷn â thlodi digidol yn cael effaith wirioneddol ar allu pobl ifanc i gadw mewn cysylltiad â gwaith ieuenctid, yn ogystal â gyda'r elfennau addysg, iechyd a gofal cymdeithasol a oedd ar gael bellach ar-lein. Mae pobl ifanc na allant gael mynediad at offer neu led band yn parhau i wynebu anfantais ddwbl ac yn parhau i gael eu hallgáu o wasanaethau.

Gan roi'r pandemig i'r naill ochr, yn ein bywydau bob dydd, fel dinasyddion o bob oed, mae'r ffordd rydym yn cael mynediad at wybodaeth, yn cyfathrebu ac yn cymdeithasu wedi troi fwyfwy at y byd digidol. Mewn gwrthgyferbyniad, mae bywydau proffesiynol gweithwyr ieuenctid – yn y sector a gynhelir yn arbennig, ond mewn sectorau eraill hefyd – wedi parhau yn y byd analog i raddau helaeth.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phobl ifanc a'r sector i sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwaith ieuenctid digidol a gwasanaeth gwybodaeth i ieuenctid. Byddai hyn yn galluogi pob person ifanc i gael mynediad at wybodaeth ynglŷn ag argaeledd cymorth a gwasanaethau gwaith ieuenctid, ac yn galluogi gweithwyr ieuenctid i ddarparu'r gwasanaeth hwnnw trwy ddefnyddio cyfryngau digidol, pan fo'n well gan y bobl ifanc ddefnyddio'r cyfryngau hynny. Gwelwn hyn fel datblygiad angenrheidiol i ategu, ond nid i ddisodli, y dasg o ddarparu gwasanaethau gwaith ieuenctid wyneb yn wyneb. Dylai'r fframwaith ddilyn yr egwyddorion y cytunodd Grŵp Cyngori Digidol y Bwrdd Gwaith Ieuenctid arnynt, a dylai gynnwys y canlynol:

- Canllawiau, safonau ac egwyddorion ar gyfer gwaith ieuenctid digidol, y cytunir arnynt yn genedlaethol.
- Cynnwys (yn y Gymraeg a'r Saesneg) a gaiff ei lunio'n lleol gan bobl ifanc a gweithwyr ieuenctid, ond a gaiff ei guradu'n rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Cydnabyddiaeth o werth creadigrwydd digidol yn ei rinwedd ei hun fel ffordd o ymgysylltu â gwaith ieuenctid (er enghraifft, codio, dylunio graffeg, cynhyrchu sain a chynhyrchu ffilmiau).
- Dylai ymdrin â thlodi digidol a'r effaith a gaiff hyn ar hygyrchedd i bawb.

- Dylai gyd-gynhyrchu a chynllunio'r gwasanaeth gyda phobl ifanc fel sail i'r hyn y gallai'r cynnig ei ddarparu.
- Dylai gynnwys adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth a dulliau sicrhau ansawdd, ynghyd â'r galluogi'r sector gwaith ieuenctid i ddefnyddio gwybodaeth a llunio adroddiadau a gwella'r gwasanaeth.
- Cydnabyddiaeth o amrywiaeth a chynhwysiant yn unol â'r hyn mae pobl ifanc wedi'i ddweud wrthym – sef bod gallu defnyddio gwasanaethau gwaith ieuenctid mewn ffordd ddigidol wedi gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu cynnwys, weithiau am y tro cyntaf, gan fod y dull hwn wedi chwalu rhwystrau a chynyddu cysylltedd ac ymrwymiad.
- Hyfforddiant a chyfleoedd i ddatblygu'r gweithlu er mwyn gwireddu'r egwyddorion hyn.

10. Dylai Llywodraeth Cymru dreialu a chyflwyno cerdyn 'Hawliau ieuenctid' ar gyfer Cymru

"Er mwyn i bobl ifanc allu gwybod be mae ganddyn nhw hawl i'w gael."

Person ifanc.

Gan ddefnyddio methodoleg cynllunio gwasanaethau, a chan grynhoi egwyddorion y cynnig digidol ar gyfer gwaith ieuenctid, dylid dechrau gweithio ar sefydlu cerdyn 'Hawliau ieuenctid'. Byddai'r cerdyn hwn yn rhad ac am ddim i bob person ifanc 11-25 oed sy'n byw yng Nghymru. Model tebyg i'r un a ddatblygwyd yn yr Alban⁹. Mae gan y cerdyn y potensial i wneud y canlynol:

- Bod yn gerdyn 'profi oedran' achrededig.
- Amlinellu'r hyn sydd ar gael i bobl ifanc yn ardal eu hawdurdod lleol, ledled Cymru ac yn rhyngwladol.

Dylid gallu defnyddio'r cerdyn ar gyfer y canlynol hefyd:

- Consesiynau teithio
- Ciniawau ysgol.

⁹ <https://young.scot/the-young-scot-card>

- Gostyngiadau gyda manwerthwyr a darparwyr hamdden sy'n bartneriaid.
- Cael mynediad at raglen wobrwon.

11. Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu faint o wasanaethau gwaith ieuenctid sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg a chefnogi prosiect peilot i lywio'r gwaith. Dylid sicrhau hefyd fod darparu gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg yn flaenoriaeth i'r corff cenedlaethol dros waith ieuenctid yng Nghymru yn y dyfodol

"Mae'n cefnogi hawliau pobl ifanc ac yn grymuso plant a phobl ifanc."

Person ifanc.

Mae Cymraeg 2050¹⁰ yn gosod targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae gan waith ieuenctid ran bwysig i'w chwarae wrth gyflawni'r nod hwn. Mae gan bobl ifanc yr hawl i gael gwasanaethau gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dylid cynllunio gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg mewn modd strategol er mwyn sicrhau y bydd y sefyllfa fregus sydd ohoni yn gwella, gan roi sylw i ddatblygu'r gweithlu a sicrhau cyllid digonol, cynaliadwy.

Mae *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011* yn pennu fframwaith cyfreithiol ar gyfer gosod dyletswydd ar rai sefydliadau i gydymffurfio ag un neu fwy o safonau'n ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o safonau'r Gymraeg yn golygu na ddylai sefydliadau drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylent hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, gan ei gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau bob dydd. Caiff gofynion pellach i hyrwyddo'r Gymraeg eu pennu ar gyfer Awdurdodau Lleol trwy gyfrwng set ychwanegol o safonau, a elwir yn 'safonau hyrwyddo'. Mae Adran 31 Mesur y Gymraeg yn nodi bod 'safon hyrwyddo' yn golygu safon (yn ymwneud ag unrhyw weithgaredd) sydd â'r bwriad o hyrwyddo neu hwyluso defnydd ehangach o'r Gymraeg. Dylai Awdurdodau Lleol ddilyn unrhyw ganllawiau a roddir gan Gomisiynydd y Gymraeg ynghylch Safonau Hyrwyddo, er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio a chyflawni

¹⁰ <https://senedd.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf>

gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg, pa un a gaiff y gwaith hwn ei ddarparu neu ei gomisiynu.

Mae cydnabod dewis iaith a darparu gwaith ieuenctid trwy gyfrwng y Gymraeg yn angenrheidiol er mwyn cael dull sy'n canolbwyntio ar ieuenctid yng Nghymru.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwaith Ieuenctid ar y Gymraeg wedi cynnig y dylid datblygu prosiect peilot i lywio gwaith y corff cenedlaethol arfaethedig ar gyfer gwaith ieuenctid, mewn perthynas â darparu gwaith ieuenctid cyfrwng Cymraeg ledled Cymru. Gellid defnyddio'r canllawiau a gaiff eu llunio yn ystod unrhyw gyfnod interim, a dylai'r canllawiau hyn ymdrin â materion yn ymwneud â chynllunio ac ariannu.

12. Dylai Llywodraeth Cymru adeiladu ar yr ymrwymiad i ddatblygu a hyrwyddo'r proffesiwn gwaith ieuenctid gyda strwythur gyrfaoedd sy'n cynnig cyfleoedd i gamu ymlaen

“Rhaid i weithwyr ieuenctid gael eu gwerthfawrogi. Os dydyn nhw ddim yn teimlo fel pe baen nhw'n cael eu gwerthfawrogi, pam maen nhw yno? Rhaid iddyn nhw gael hyfforddiant a chymwysterau priodol ... mae gennym ni hawl i gael y gweithwyr ieuenctid gorau ... maen nhw angen cymorth gan weithwyr ieuenctid eraill.”

Person ifanc.

Mae'r sector gwaith ieuenctid yn amrywiol. Mae'n gweithredu ar draws ystod o leoliadau ac mae ganddo weithlu sy'n cynnwys rheolwyr, staff cyflog a gwirfoddolwyr. Yn sail i'r proffesiwn ceir fframwaith cymwysterau clir a ardystir yn broffesiynol gan Safonau Addysg Hyfforddiant (ETS) Cymru¹¹ ar ran y Cyd-bwyllgor Trafod ar gyfer Gweithwyr Ieuenctid a Chymunedol. Rhydd hyn sylfaen gref y gellir datblygu'r gweithlu arni.

Er bod llwybr clir i'w gael ar gyfer dod yn weithiwr ieuenctid cymwysedig, mae adborth a gasglwyd gan y sector trwy gyfrwng Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth 'Datblygu'r Gweithlu' yn awgrymu bod yna le i wella y tu hwnt i hyn. Ni cheir dealltwriaeth glir o raddfa'r gweithlu gwaith ieuenctid na sut caiff ei ddefnyddio. Ni cheir cyllid digonol i gefnogi hyfforddiant gwaith ieuenctid ar draws

¹¹ <https://www.etswales.org.uk>

awdurdodau lleol na'r sector gwirfoddol, nac ar gyfer gwirfoddolwyr. Ymhellach, prin yw'r cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus. Caiff hyn ei ddwysáu gan ddiffyg cynllun ar gyfer datblygu'r gweithlu yn y sector gwaith ieuenctid. Rhaid i'r sector symud oddi wrth ddull tameidiog ac oportiwnistaidd o ymdrin â datblygiad proffesiynol parhaus tuag at ddull systematig, blaengar a chynaliadwy.

Mae nifer o ddatblygiadau cadarnhaol ar droed, yn cynnwys ymwreiddio mwy ar y Marc Ansawdd¹² a chyflwyno rhaglen newydd o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth a rheoli. Fodd bynnag, hyd nes y deallir yn well beth yw graddfa a chyrhaeddiad y sector, mae'n anodd pennu beth yn union sydd ei angen, ac i ba raddau mae ei angen.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Estyn adolygiad thematig o hyfforddiant gwaith ieuenctid, ac mae wedi cyflwyno cyfres o argymhellion¹³. Mae'r argymhellion hyn yn cyd-fynd â'n dealltwriaeth ni, ac rydym yn eu cefnogi'n llwyr.

Fel Bwrdd, argymhellwn y canlynol:

- Dylid cynnal ymarfer mapio llawn yn ymwneud â graddfa a chyrhaeddiad y sector. Gallai'r ymarfer hwn archwilio unrhyw faterion yn ymwneud â recriwtio a dal gafael ar staff.
- Gweithio gyda Chyngor y Gweithlu Addysg i gynnal a chyhoeddi archwiliad sgiliau.
- Llunio cynllun datblygu'r gweithlu ar gyfer gwaith ieuenctid.
- Archwilio faint o arian sy'n angenrheidiol er mwyn cynnal hyfforddiant gwaith ieuenctid ar gyfer staff gwaith ieuenctid gwirfoddol a staff cyflog.
- Datblygu cymwysterau a datblygiad proffesiynol parhaus ymhellach.
- Gweithio gyda phartneriaid a grwpiau allweddol i hyrwyddo gwaith ieuenctid fel gyrfa.

¹² <https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/achredu/marc-ansawdd-ar-gyfer-gwaith-ieuenctid-yng-nghymru/gwybodaeth.html>

¹³ <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/gwerth-hyfforddiant-gwaith-ieuenctid-model-cynaliadwy-i-gymru>

13. Sefydlu brand gwaith ieuenctid yng Nghymru, ynghyd ag adnodd i gydlynw a hyrwyddo'r sector gwaith ieuenctid ymhlith ei bartneriaid a hwyluso cyfathrebu ar draws y sector ei hun

“Mae pobl angen gwybod beth yw gwaith ieuenctid ... rydyn ni angen i waith ieuenctid gael sylw. Fe allwn ni wneud hyn trwy gynnwys pobl eraill.”
Person ifanc.

Ceir lluo o enghreifftiau da lle mae arian gan Lywodraeth Cymru, ynghyd ag ewyllys da ac adnoddau'r sector ei hun, wedi gweithio gyda'i gilydd mewn modd effeithiol. Nid yw hyn yn gynaliadwy yn yr hirdymor, a byddai swyddogaeth cysylltiadau cyhoeddus a marchnata yn rhan o gylch gwaith y corff cenedlaethol newydd.

Yn y cyfamser, mae angen i ni sefydlu 'brand gwaith ieuenctid yng Nghymru' gydag adnodd pwrpasol i gydlynw a hyrwyddo'r sector gwaith ieuenctid ymhlith ei bartneriaid a hwyluso cyfathrebu ar draws y sector ei hun.

Mae yna lawer o waith i'w wneud yn y cyswllt hwn, ac fe allai'r gwaith gynnwys cynyddu cyfathrebu ar draws y sector, cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Marchnata ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, a hyrwyddo gwaith ieuenctid ymhlith sefydliadau partner a chyrrff cyllido posibl. Ystyriwn fod y mesur hwn yn fesur interim pwysig, hyd nes y caiff corff cenedlaethol ei sefydlu, fel rhan, o bosibl, o ddathliadau'r *Flwyddyn Pobl Ifanc* yn ystod tymor nesaf y Senedd (2021 – 2026).

3. YR HYN MAE POBL IFANC YN EI DDWEUD WRTHYM AM WAITH IEUENCTID

Drwy'r adroddiad hwn, caiff lleisiau pobl ifanc eu cyflwyno. Cafodd y lleisiau hyn eu cymryd o amrywiol sgysiau y gwnaethom eu hwyluso fel Bwrdd, gyda help y sector gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Cyn y pandemig ac ar gychwyn ein gwaith, gyda help Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth 'Mae Pobl Ifanc yn Ffynnu' fe aethom ati i gynnal sgysiau *Siarad am Waith Ieuenctid* gyda phobl ifanc. Roeddem eisiau clywed beth oedd barn pobl ifanc ynglŷn â'u gwasanaethau gwaith ieuenctid a sut dylid datblygu'r gwasanaethau ymhellach, ac roeddem eisiau cadarnhau gyda phobl ifanc fod yr argymhellion roeddem yn eu cyflwyno yn gwneud synnwyr.

Cafodd y sesiynau *Siarad am Waith Ieuenctid* eu hwyluso gan weithwyr ieuenctid o'r sector gwirfoddol ac o awdurdodau lleol ledled Cymru. Trwy gynnal sgysiau gyda phobl ifanc yn eu lleoliadau gwaith ieuenctid, fesul un neu mewn grŵp, bu modd i'r bobl ifanc sicrhau bod y Bwrdd yn clywed eu lleisiau.

Gyda help myfyrwyr BA Gwaith Ieuenctid a Chymuned o Brifysgol Glyndŵr, lluniwyd poster yn ymwneud â'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid ar gyfer pobl ifanc. Ategwyd hyn gan fideo, lle'r aeth pobl ifanc ati i esbonio sut mae'r strategaeth yn eu helpu nhw a'r gweithwyr ieuenctid sy'n eu cynorthwyo
<https://llyw.cymru/strategaeth-gwaith-ieuenctid-trwy-leisiau-pobl-ifanc>

Daeth yn amlwg fod pobl ifanc eisiau cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Gwaith Ieuenctid ei hun, er mwyn helpu i siapio dyfodol gwasanaethau gwaith ieuenctid yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. O ganlyniad, fe wnaethom hysbysebu am bobl ifanc i ymuno â'r Bwrdd, a chafwyd 25 o geisiadau o bob rhan o Gymru.

Ar y pryd, bu'n rhaid gohirio'r gwaith recriwtio oherwydd y pandemig a'r cyfnod clo cenedlaethol. Fe wnaethom benderfynu cadw mewn cysylltiad gyda phawb a anfonodd gais, gan gynnal trafodaethau Zoom gyda nhw yn y Gymraeg a'r Saesneg. Hefyd, roeddem yn falch iawn o gael adborth gan Gynulliad Ieuenctid Sir Benfro a grwpiau eraill o bobl ifanc, yn cynnwys rhai o Dîm

Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid Cymru (EYST), ynglŷn â sut oedd Covid-19 wedi effeithio ar bobl ifanc yn y gymuned BAME. Amcangyfrifwn fod mwy na 1,000 o bobl ifanc wedi cyfrannu at y gwaith hyd yn hyn.

Wrth i ni symud yn ein blaen, yn awr rydym yn gweithio gyda phobl ifanc er mwyn iddynt allu ffurfio eu panel gwaith ieuenctid eu hunain a fydd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro i gynnal ac adeiladu ar y momentwm.

Yn ddiweddar, aeth Comisiynydd Plant Cymru ati i gyhoeddi *Coronafeirws a Fi*¹⁴. Rhannodd mwy na 23,700 o blant a phobl ifanc 3-18 oed eu barn trwy'r arolwg *Coronafeirws a Fi*. Mae'n amlinellu'r pryderon sydd gan blant a sut maent yn teimlo yn ystod yr argyfwng, ac mae'n tynnu sylw at eu profiadau yn ystod y pandemig. Roedd gan bobl ifanc o oedran uwchradd deimladau mwy negyddol na phlant iau, gydag 16% yn teimlo'n drist 'y rhan fwyaf o'r amser'.

"Mae'r pandemig wedi dangos pa mor bwysig yw gwaith ieuenctid i blant, pobl ifanc a'u cymunedau. Yn ystod cyfnodau cynharaf y pandemig, fe wnaeth gweithwyr ieuenctid newid y ffordd roedden nhw'n gweithio er mwyn cyrraedd pobl ifanc, yn ogystal â chefnogi ymdrechion y gymuned, fel cefnogi dysgu mewn hybiau ysgolion. I gynifer o bobl ifanc, mae gwaith ieuenctid yn rhan bwysig o'u bywydau ac mae'n hanfodol i'w datblygiad wrth symud i fyd oedolion."

"Dro ar ôl tro rydw i, fel Comisiynydd, wedi clywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc fod eu prosiect neu eu grŵp gwaith ieuenctid lleol wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'w gallu i ymgysylltu â'u cymuned, eu cyfoedion ac addysg, a'i fod wedi rhoi pleser a phwrrpas ychwanegol i'w bywydau. Wrth i ni barhau i ymlafnio â'r pandemig, fe fydd pobl ifanc angen y dull 'seiliedig ar berthnasoedd' a gynigir gan waith ieuenctid, yn fwy nag erioed o'r blaen."

Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

Mae'r hyn a ddywed pobl ifanc wrthym am werth gwaith ieuenctid yn eu bywydau yn llawn o sylwadau cadarnhaol. Gellir crynhoi'r

¹⁴ https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2020/06/FINAL_formattedCVRep_CYM.pdf

manteision a ddaw i ran pobl ifanc trwy ddweud bod y gwasanaeth yn:

- Darparu mannau diogel ac oedolion y gellir ymddiried ynddynt.
- Magu hyder, hunan-barch a hunaniaeth.
- Helpu i feithrin sgiliau a galluoedd newydd.
- Darparu cyfle i fod yn greadigol ac yn llawn mynegiant.
- Helpu i ennyn parch at eraill.
- Helpu i gynnal neu weithio tuag at iechyd meddwl cadarnhaol.
- Helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o berthnasoedd cymdeithasol, gan hyrwyddo cynhwysiant ac amrywiaeth.
- Cynyddu'r cyfle i bobl ifanc gymryd rhan yn y broses benderfynu.
- Darparu cyfleoedd i gael hwyl ac i chwarae.

“Gall gwaith ieuenctid ein helpu i fod y gorau y gallwn fod, a’n harwain ar hyd y llwybr iawn ... mae’r berthynas rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid yn helpu pobl ifanc i dyfu.”
Person ifanc.

Nid ‘helpu’r rhai sydd wedi syrthio rhwng y craciau’ yn unig yw pwrpas gwaith ieuenctid. Mae a wnelo gwaith ieuenctid â chynnig cyfle eang neu gyffredinol, a chyfle a hygyrch, lle gall pobl ifanc adeiladu rhwydweithiau cymdeithasol eang, lle ceir mannau diogel iddynt fynd, a lle bydd oedolion y gellir ymddiried ynddynt wrth law.

O gofio’r manteision a ddaw i ran pobl ifanc yn sgil gwaith ieuenctid, mae hyn yn ddymunol ac yn gyflawnadwy, ac yn cyd-fynd â dull ‘seiliedig ar hawliau’ Llywodraeth Cymru.

4. DULL SEILIEDIG AR HAWLIAU O YMDRIN Â GWAITH IEUENCTID YNG NGHYMRU

“Gall pawb sy’n 11-25 oed ei ddefnyddio. Dim gwahaniaeth be fo’u hunaniaeth, eu cefndir neu eu hanghenion.”

Person ifanc.

Ystyriwn fod gwaith ieuenctid wedi’i wreiddio’n ddwfn mewn dull seiliedig ar hawliau, lle caiff pobl ifanc fynd ati’n uniongyrchol i gynllunio a chyflawni pob cam.

Yng Nghymru, mae *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011* yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn wrth wneud penderfyniadau ynghylch deddfwriaethau neu bolisiau newydd arfaethedig, neu wrth adolygu neu newid polisiau a geir eisoes.

Caiff arferion gwaith ieuenctid eu hysgogi gan yr egwyddor wirfoddol, lle ystyrir y person ifanc fel unigolyn – mae’r person ifanc yn cychwyn o’i fan presennol, a chaiff ei annog i fynd y tu hwnt i’r man cychwyn hwnnw. Mae gan waith ieuenctid sylfaen werthoedd sy’n canolbwyntio ar gynhwysiant a chydraddoldeb, wedi’i seilio ar barch tuag at bobl ifanc.

“Mae gan bobl ifanc yr hawl i’w mynegi eu hunain a bod yn ddiogel.”

Person ifanc.

Yn aml mae pobl ifanc, ynghyd â gweithwyr ieuenctid a gweithwyr cymorth ieuenctid, yn cyfeirio at y berthynas ddibynadwy sydd i’w chael. Y pwysigrwydd o gael grŵp o gyfeillion neu oedolyn y tu allan i’r teulu a all fod yno i chi. Oedolyn sy’n cynnig cyngor, eiriolaeth, cymorth a chyfle. Dyma ddull cynhwysol sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.

“Os dyw e ddim yn hygyrch, fydd neb yn gwybod amdano. Dylai pawb gael y cyfle.”

Person ifanc.

Trwy ddweud ‘cynhwysol’, rydym yn golygu creu cynnig neu gyfle sy’n groesawgar ac yn gyfranogol, lle caiff lleisiau pawb eu trysori. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i ni bennu’r rhwystrau sy’n bodoli ar

gyfer rhai grwpiau, deall y rhwystrau hyn, a mynd ati i gael gwared â nhw. Deallwn fod angen gwneud gwaith yn y maes hwn fel y gellir darparu gwaith ieuencid ledled Cymru yn y ffordd hon. Er mwyn gweld bod y bwlch rhwng y dyhead a'r realiti yn rhy fawr, y cwbl sydd raid i chi ei wneud yw edrych ar argaeledd gwaith ieuencid trwy gyfrwng y Gymraeg, neu wrando ar brofiad pobl ifanc sy'n dweud bod eu hil, eu rhyw, eu rhywedd, eu hanabledd, eu ffydd neu eu treftadaeth yn gwneud iddynt deimlo ar y cyrion yn aml.

Nid oes angen ailddiffinio gwaith ieuencid na'r pethau mae'n anelu at eu gwneud. Mae hyn wedi hen ennill ei blwyf, ac yn *Gwaith Ieuencid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion 2018*¹⁵ mae'r Grŵp Adolygu Gwaith Ieuencid yng Nghymru (Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuencid Gwirfoddol, Grŵp Prif Swyddogion Ieuencid Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg) yn diffinio Gwaith Ieuencid fel a ganlyn:

“Mae gwaith ieuencid yng Nghymru yn seiliedig yn bennaf ar berthynas wirfoddol rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuencid. Mae'r Gwasanaeth Ieuencid yn hawl cyffredinol sydd ar gael i bob person ifanc rhwng 11 a 25 oed.”

Rhaid i ni fod yn glir. Rydym yn cefnogi'r diffiniad hwn; ond o gofio'r cyfyngiadau mae'r sector gwaith ieuencid yn gweithio o'u mewn, ni fydd modd darparu'r hawl gyffredinol i bob person ifanc 11-25 oed sy'n byw yng Nghymru. Credwn fod yn rhaid i'r hawl gael ei gwireddu gyda gweledigaeth a strategaeth glir ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu capasiti ein gwasanaethau gwaith ieuencid.

Mae *Egwyddorion a Dibenion* yn nodi Pum Piler Gwaith Ieuencid yng Nghymru, gan ddisgrifio cyfleoedd dysgu sy'n addysgol, yn fynegiannol, yn gyfranogol, yn gynhwysol ac yn rymusol. Trwy ddeall cryfder yr hyn a ddisgrifir yma, mae'n llawer haws deall pam mae pobl ifanc yn gwerthfawrogi gwaith ieuencid i'r fath raddau. Maent yn ei weld fel hawl.

¹⁵ <https://www.cwvys.org.uk/wp-content/uploads/2018/11/GWAITH-IEUENCTID-YNG-NGHYMRU-EGWYDDORION-A-DIBENION.pdf>

5. YMATEB GWAITH IEUENCTID I COVID-19

“(Dw i’n teimlo) yn ansicr ynglŷn â’r dyfodol, does yna ddim atebion yn cael eu cynnig.”

Person ifanc.

Pan ddechreuodd y cyfnod clo ym mis Mawrth 2020, roedd hi’n ymddangos fel petai’r ffordd y câi cymorth a gwasanaethau gwaith ieuenctid hanfodol eu darparu i bobl ifanc wedi newid dros nos. Gyda rheolau ‘cadw pellter cymdeithasol’ llym newydd ar waith, roedd gwasanaethau gwirfoddol a gwasanaethau a gynhelir yn wynebu problem anodd: sut byddai modd iddynt barhau i weithio gyda phobl ifanc, nifer ohonynt yn agored iawn i niwed. Fodd bynnag, o fewn y cyd-destun anodd hwn, fe ddisgleiriodd creadigrwydd a dulliau arloesol y sector gwaith ieuenctid. Trwy gael eu hysgogi gan eu hymrwymiad i sicrhau hawliau pobl ifanc, ac er mwyn eu cynorthwyo i ddeall eu cyfrifoldebau, fe wnaeth gweithwyr ieuenctid – sef gweithwyr ieuenctid gwirfoddol a gweithwyr cyflog proffesiynol yn y maes – ddechrau archwilio ffyrdd newydd o ymgysylltu â’r bobl ifanc roeddynt yn gweithio gyda nhw.

O fewn dim o dro, roedd nifer o wasanaethau gwaith ieuenctid yn darparu cymorth ym mha bynnag ffyrdd y gallent. Roedd gwaith ieuenctid yn cael ei gynnal ar stepen y drws, mewn mannau cyhoeddus, mewn ysgolion ac mewn hybiau, dros y ffôn, ac mewn mannau digidol – trwy gyfrwng sesiynau un-i-un a gwaith grŵp ar-lein, a thrwy ddarparu gwybodaeth ddigidol. Cynigiodd y gwaith hwn achubiaeth i bobl ifanc o amgylch y wlad, ac yn enwedig i’r rhai mwyaf agored i niwed yn eu plith, gan eu helpu i ailgysylltu â’u cyfoedion, cael mynediad at fannau diogel newydd ar-lein, ac ymgysylltu ag oedolion dibynadwy a allai roi cyngor ac arweiniad iddynt. Ymhellach, gwelodd gweithwyr ieuenctid eu bod yn meithrin perthnasoedd cryfach gyda rhieni, gofalwyr a theuluoedd wrth iddynt ymdrechu i ymgysylltu â’r bobl ifanc a oedd yn byw gyda nhw.

“Mae cymryd rhan mewn gwaith ieuenctid ar-lein wedi cynnig trefn i mi. Yr unig beth dw i wedi’i golli ydy cyswllt corfforol wyneb yn wyneb.” Person ifanc.

Trwy gyfrwng y dulliau hyn, mae gwaith ieuenctid wedi parhau, ac yn aml mae wedi cryfhau ei gyfraniad at wahanol agendâu’r llywodraeth, gan fynd ati’n anfwriadol i helpu i gyflawni un o’i

amcanion strategol ei hun, sef sicrhau bod gwaith ieuenctid yn cael ei drysori a'i ddeall. Llwyddwyd i gyflawni hyn trwy wneud y canlynol:

- Cefnogi addysg ffurfiol trwy ddarparu cymorth dysgu i'r rhai a oedd yn astudio gartref neu yn yr ystafell ddosbarth.
- Gwella canlyniadau iechyd trwy sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod sut i gynnal iechyd y meddwl a'r corff.
- Mynd i'r afael ag unigrwydd a theimladau ynysig trwy drefnu cymorth cymdeithasol, gweithgareddau a rhwydweithiau ar-lein gyda'u cyfoedion; neu trwy weithio gyda'r heddlu i sicrhau ymgysylltu effeithiol gyda phobl ifanc yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Ymhellach, mae'r sector gwaith ieuenctid wedi bod yn llwyddiannus o ran sicrhau bod gan bobl ifanc lais gwirioneddol yn y penderfyniadau a wneir ac o ran sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt.

Mae'r pwysau ar ein gwasanaethau gwaith ieuenctid wedi bod yn fawr. Dyma sut mae un rheolwr gwaith ieuenctid mewn awdurdod lleol yn disgrifio'r sefyllfa:

"Dw i newydd dderbyn ein bod 'ar rybudd uchel'! Jyglu ymatebion brys gydag elfennau gweithredol arferol, a dw i newydd adael cyfarfod adolygiad thematig arall gydag Estyn i drafod y dull a roddwyd ar waith gennym ni ers mis Medi i gefnogi dysgu a dysgwyr agored i niwed. Ar yr un pryd, aildrefnu'r tîm er mwyn ymateb i geisiadau gan yr Heddlu i ddarparu gwaith datgysylltiedig yn ystod y cyfnod clo (rhywbeth y byddwn ni'n ei wneud); ond mae blaenoriaethu a chwblhau'r asesiadau risg hynny yn cymryd amser ac egni!"

Rheolwr Gwaith Ieuenctid mewn Awdurdod Lleol.

Yn ddi-os, mae'r gwaith hwn yn wasanaeth hanfodol allweddol. Dyma ble mae'r sylfaen ddeddfwriaethol wan yn tynnu sylw at ddifffyg gwirioneddol. Nid yw gwaith ieuenctid wedi'i ddynodi'n wasanaeth allweddol hanfodol, ac o'r herwydd nid yw'r rhai a fu'n gweithio yn y fath fodd wedi elwa ar y gydnabyddiaeth honno. Mae'n wir dweud bod nifer o awdurdodau lleol yn ystyried eu staff fel gweithwyr allweddol hanfodol, ond ni roddwyd y gydnabyddiaeth honno i lawer o ymarferwyr mewn awdurdodau

lleol neu yn y sector gwirfoddol. Rydym o'r farn fod hyn yn rhywbeth y dylid ymdrin ag ef mewn deddfwriaeth.

Ochr yn ochr â'r ymdrechion hyn gan ymarferwyr, ac fel rhan o ymdrechion o'r fath, mae cyfraniad pobl ifanc yn y frwydr yn erbyn COVID-19 wedi bod yn hanfodol, ac mae'n adlewyrchu'n dda ar agwedd pobl ifanc a hefyd ar eu dealltwriaeth o'r sefyllfa rydym ynddi. Mae mwyafrif llethol pobl ifanc wedi cadw at fesurau'r cyfnod clo, ac mae nifer ohonynt wedi cynorthwyo'u cymunedau mewn gwahanol ffyrdd, yn aml gan fynd ati i ofalu am bobl a oedd yn hunanwarchod neu a oedd angen cymorth.

Er bod pobl ifanc ar y cyfan yn gweld eisiau clybiau ieuenctid a gweithgareddau cymdeithasol eraill, trwy gyfrwng gwaith ymgysylltu â phobl ifanc a wnaed gan y sector gwaith ieuenctid a'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro ei hun fe welwyd bod nifer o bobl ifanc o'r farn fod y cynnig ar-lein ar gyfer gwaith ieuenctid, y gwaith allgymorth, a'r wybodaeth i ieuenctid, wedi bod yn ddefnyddiol ac yn hwylus i'w defnyddio.

Mae'r sector gwaith ieuenctid ei hun wedi wynebu heriau mawr yn ystod y cyfnod hwn. Mewn rhai awdurdodau lleol, cafodd staff eu hadleoli i fynd i'r afael â dyletswyddau gwahanol. Yn y sector gwirfoddol, mae'r angen i roi staff ar ffyrlo a chynnal lefelau cyllid wedi dangos pa mor fregus yw'r sector. Mae rhai yn rhagweld ansicrwydd ariannol difrifol.

Aeth Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS) ati i gynnal arolwg ymhlith ei aelodau, ac yn ddiweddar mae wedi cyhoeddi *Adroddiad CWVYS ar effaith COVID-19*¹⁶. Er bod yr adroddiad yn dangos pa mor greadigol fu'r sector wrth ymateb i'r argyfwng, mae hefyd yn cyfeirio at bryderon difrifol yn ymwneud â'r dyfodol, o ran effaith rhoi staff ar ffyrlo, parhad cyllid a goroesi.

Astudiaeth Achos: Urdd Gobaith Cymru

Mae Urdd Gobaith Cymru, a sefydlwyd ym 1922, yn ddarparwr gwaith ieuenctid iaith Gymraeg gwirfoddol cenedlaethol.

Rhagamcanwyd y byddai ei drosiant (cyn COVID) ar gyfer 2020/21 yn £11.5 miliwn, gydag 81% o'r trosiant hwn yn cael ei gynhyrchu

¹⁶ <https://www.cwvys.org.uk/cwvys-report-on-the-impact-of-covid-19/?lang=cy>

trwy ei weithgareddau masnachol ei hun. Roedd gwerth economaidd yr Urdd i Gymru yn £32 miliwn a chyflogai 320 o staff. Mae'r pandemig wedi peri i'r Urdd golli incwm; yn awr, y trosiant a ragamcanir ar gyfer 2020/21 yw £2.8 miliwn. Bydd 80% o'r trosiant hwn yn dod o gronfeydd cyhoeddus. Mae'r Urdd wedi colli £8.7 miliwn o incwm a gynhyrchir yn sgil ei ganolfannau preswyl, ei ffioedd aelodaeth a'i ddarpariaeth gymunedol. Bellach, mae'r Urdd yn cyflogi 150 o staff (lleihad o 54%).

Mae hyn wedi effeithio'n fawr ar ei wasanaethau, yn bennaf ar staff ifanc a'r rhai sy'n byw mewn cymunedau gwledig lle ceir prinder cyflogaeth arall. Mae'r golled o ran incwm yn golygu na all yr Urdd lenwi bylchau na chynnig arian cyfatebol ar gyfer swyddi a darpariaethau lle ceir prinder arian, felly bydd hyn yn golygu y collir darpariaeth iaith Gymraeg yr Urdd ledled Cymru. Mae'r sefyllfa wedi tynnu sylw at ba mor fregus yw'r model ariannu ar gyfer darpariaeth gwaith ieuenctid gyson yn y Gymraeg ledled Cymru.

Er gwaethaf ymdrechion gwyb y sector gwaith ieuenctid yn ei gyfanrwydd a'r cynnig gwell trwy gyfrwng platfformau digidol, mae hi'n naturiol bod pobl ifanc erbyn hyn yn dymuno i'r gwasanaethau ailagor yn ddiogel. Maent eisiau ailgysylltu gyda'u cyfeillion mewn mannau diogel, cael hwyl, cymryd rhan mewn gweithgareddau, a chael mwy o drefn yn eu bywydau. Yr her i ddarparwyr gwaith ieuenctid, yn wyneb yr ansicrwydd cynyddol, yw sut gallant gwrdd â'r galw hwn.

"Fy mhrif bwynt yw hyn – dw i'n credu ei bod hi'n dda ein bod ni bellach yn addasu i fyd pobl ifanc. Rydyn ni'n symud gyda'r oes, a dw i'n credu bod angen i ni dderbyn hyn yn gyffredinol mewn cymdeithas yn hytrach na'i wrthwynebu. Ond ddylen ni ddim anwybyddu gwerth gwaith wyneb yn wyneb ac atgoffa ein gilydd mai pobl ydyn ni!"

Person ifanc.

Yn ôl rhagolygon poblogaeth StatsCymru Llywodraeth Cymru, mae poblogaeth pobl ifanc 11-25 oed yn 2020 yn 560,707. Rhagwelir y bydd y boblogaeth hon yn cynyddu i 575,572 erbyn 2030¹⁷. Mae'r boblogaeth 0-25 heddiw yn cyfateb i oddeutu 30% o gyfanswm y boblogaeth, a bydd yn cyfateb i 28% o'r boblogaeth erbyn 2030.

¹⁷ <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/National/2018-based/populationprojections-by-year-age>

Mae'n anodd mesur faint o bobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau gwaith ieuenctid mewn gwirionedd, ond yn ôl pob tebyg mae'n llai nag 20% o'r cyfanswm.

O gofio'r ffordd mae gwaith ieuenctid wedi profi ei werth, ac o gofio bod pobl ifanc yn ei ystyried fel gwasanaeth allweddol, mae'n anodd dadlau y gallai ymateb i gynnydd mewn galw. Fodd bynnag, mae'r galw'n debygol o gynyddu wrth i bryderon iechyd meddwl a llesiant gynyddu o ganlyniad i'r pwysau cynyddol mae pobl ifanc yn eu hwynebu, gydag ansicrwydd i'w gael ym mhob agwedd ar eu bywydau bob dydd, fwy neu lai.

'Dywedwyd wrth Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd y gallai plant a phobl ifanc ddioddef 'niwed anuniongyrchol' yn sgil y pandemig COVID-19. Yn amlwg, fe allai colli mynediad at eu hysgolion a'u gwasanaethau ieuenctid, a chael eu hynysu fwyfwy oddi wrth eu cyfeillion, gael effaith fawr ar iechyd meddwl a llesiant pobl ifanc. Trwy'r gwaith craffu mae ein Pwyllgor wedi'i wneud ar waith ieuenctid, rydyn ni'n gwybod eisoes pa mor werthfawr yw'r gwasanaethau hyn wrth gefnogi a chyfoethogi bywydau pobl ifanc. Yn ddiweddar, rydyn ni wedi clywed yn uniongyrchol gan ddarparwyr gwasanaethau ieuenctid ynglŷn â sut maen nhw wedi bod yn arloesi, yn addasu eu gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu parhau i gynorthwyo pobl ifanc yn ystod y misoedd diwethaf.

'Rhaid i'r gwaith o reoli effaith COVID-19 ar blant a phobl ifanc fod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Rhaid i'r dasg o ddarparu gwasanaethau ieuenctid cyffredinol, hygyrch a dwyieithog fod yn rhan allweddol o hynny.'

Lynne Neagle, Aelod o'r Senedd, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Bellach, mae adeiladu model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yn fater o gryn frys.

6. CYFRANIAD GWAITH IEUENCTID AR DRAWS PORTFFOLIOS Y LLYWODRAETH

“Mae yna lawer o waith gwych wedi’i wneud o ran iechyd meddwl a pha gymorth sydd ar gael yn eich ardal. Dylai hyn gael ei ddatblygu ymhellach.”

Person ifanc.

Mae arferion a dulliau gwaith ieuenctid yn cynnig model rôl ar gyfer y disgwyliadau a’r ymddygiadau a nodir yn *Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015*¹⁸, gan gyfrannu at y saith nod llesiant a chyflawni’n unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Bydd yn parhau i wneud hyn trwy weithio tuag at atal a chanlyniadau hirdymor, gan gydweithio gyda phobl ifanc ac ymarferwyr, a datblygu atebion integredig a fydd yn cynnwys defnyddwyr y gwasanaethau’n uniongyrchol.

“Bydd meithrin sgiliau’n ymwneud â gweithio mewn tîm, cydnerthedd, deallusrwydd emosiynol ac empathi, yn bwysicach nag erioed wrth i’r ffyrdd rydyn ni’n byw ac yn gweithio newid yn gyflym. Allwn ni ddim mwyach ystyried y sgiliau yma fel sgiliau a gaiff eu trosglwyddo gan athrawon yn unig. Pecyn addysg a gaiff ei gyflwyno gan ystod eang o ‘addysgwyr’ mewn partneriaeth â phobl ifanc – dyna sydd ei angen; nid yn unig er mwyn sicrhau y gallan nhw gael mynediad at swyddi’r dyfodol, ond hefyd er mwyn sicrhau y gallan nhw fyw bywyd gwerth ei fyw.”

Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol.

Fel y nodir yn Strategaeth Gwaith Ieuenctid 2019¹⁹, mae gwaith ieuenctid yn esgor ar fanteision sylweddol i bobl ifanc. Mae hyn ar ei ben ei hun yn cynnig sail resymegol gadarn dros fuddsoddi yn y dasg o ddarparu gwaith ieuenctid. Fodd bynnag, caiff hyn ei ddwysáu wrth ystyried yr holl fanteision a ddaw i ran Cymru trwy gynorthwyo pobl ifanc i fyw bywydau gwerth chweil fel aelodau gwerthfawr o’r gymdeithas.

Dylai dyfodol cynaliadwy i waith ieuenctid yng Nghymru olygu bod modd i bobl ifanc allu cwestiynu pethau a herio anghyfiawnder yn unrhyw le yn y byd, a dylai’r ddealltwriaeth a’r ymwybyddiaeth hon

¹⁸ <https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

¹⁹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-06/strategaeth-gwaith-ieuenctid-cymru.pdf>

o'r byd fod yn rhan hanfodol o waith ieuenctid. Rydym wedi gweld hyn gyda'r ymgyrch 'Mae Bywydau Du o Bwys/Black Lives Matter' a'r ffordd mae pobl ifanc wedi hyrwyddo pryderon ynglŷn â'r amgylchedd a diogelwch byd-eang.

*Yn Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion a Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol*²⁰, caiff rôl gwaith ieuenctid mewn dinasyddiaeth fyd-eang a materion cynaliadwyedd ei nodi'n glir.

Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn cyfrannu at nifer o flaenoriaethau'r llywodraeth – yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i gyflawni ffyniant i bawb, cyflawni rhagoriaeth, tegwch a llesiant mewn addysg, mynd i'r afael â thlodi, a lleihau'r bwlch anghydraddoldebau a'r anfanteision a waethygyd yn sgil COVID-19.

Mae polisi gwaith ieuenctid a chyfleoedd chwarae yn gorgyffwrdd, a rhaid sicrhau cydlyniaeth er mwyn i gyfleoedd chwarae digonol ar gyfer plant gael eu hadleisio wrth ddarparu cyfleoedd gwaith ieuenctid digonol ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru. Mae Adolygiad y Gweinidog o Gyfleoedd Chwarae²¹ wedi mynd ati i gynnwys gwaith ieuenctid yn ei waith.

Yn yr un modd, ceir llawer o orgyffwrdd rhwng Gwaith Ieuenctid a Gwirfoddoli Ieuenctid. Yn achos llawer o ymarferwyr gwaith ieuenctid, fe wnaethant gychwyn ar eu siwrnai gwaith ieuenctid trwy fynychu clwb ieuenctid neu gymryd rhan mewn gweithgareddau ieuenctid pan oeddynt yn ifanc, gan symud yn eu blaen i fod yn wirfoddolwyr cyn datblygu diddordeb mewn dilyn gyrfa yn y maes. Mae gan waith ieuenctid ddiwylliant 'tyfu eich hun' cryf ac mae'n cefnogi'r arfer o feithrin cysylltiadau â'r gymuned a chynnal gweithgareddau yn y gymuned trwy fodel dinasyddiaeth.

Ochr yn ochr â hyn, mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yn bartner arweiniol yng Nghymru ar gyfer #Pwerieuenctid. Nod yr ymgyrch 5 mlynedd hon yw cynyddu gweithredu cymdeithasol (sef gwirfoddoli, codi arian, ymgyrchu)

²⁰ <http://www.youthworkwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/11/National-Occupational-Standards-for-Youth-Work-2002.pdf>

²¹ <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-y-diweddaraf-am-adolygiad-gweinidogol-o-gyfleoedd-chwarae>

ymhlith pobl ifanc 10-20 oed, trwy gael cefnogaeth gan y sector gwirfoddol, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Disgwylir i'r ymgyrch ddod i ben ym mis Rhagfyr 2020, ac mae CGGC wrthi'n archwilio sut bydd Cymru yn elwa arni. Felly, mae cyfle i'w gael i gydweddu ac integreiddio gwaith ieuenctid a gwirfoddoli ieuenctid.

Bydd cynyddu profiadau a chyfleoedd gwaith ieuenctid yn y Gymraeg yn cyfrannu at uchelgeisiau *Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg (2017)*, trwy gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddysgu Cymraeg a defnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol y tu hwnt i glwyd yr ysgol neu'r cartref.

“Mae cynnig cyfleoedd i bobl ifanc gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg tu allan i furiau'r ysgol yn hanfodol os ydym am gyrraedd miliwn o siaradwyr.”

“Mae'r Urdd, y Ffermwyr Ifanc a'r Mentrau Iaith yn cynnig rhai cyfleoedd gwerthfawr i bobl ifanc gymdeithasu, ac mae'r gwaith maent yn ei wneud yn glodwiw iawn. Ond mae hefyd angen i adrannau ieuenctid o fewn pob awdurdod lleol gymryd cyfrifoldeb ac integreiddio'r Gymraeg i'w gweithgareddau, gan sicrhau fod siaradwyr Cymraeg o fewn eu timoedd gwasanaethau ieuenctid. Dylent hefyd sicrhau bod unrhyw waith a gomisiynir yn cael ei gynnig drwy'r Gymraeg.”

“Hoffwn hefyd weld colegau a phrifysgolion yn gosod targed ar gyfer denu siaradwyr Cymraeg i'r proffesiwn, fel bod gennym gynrychiolaeth deg o siaradwyr Cymraeg yn y maes.”

Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg.

Bydd Gwaith Ieuenctid yn bwysig o ran cyflawni rhai o ymrwymadau allweddol Cymru *lachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018)*, gan sicrhau tegwch o ran canlyniadau'n ymwneud ag iechyd corfforol a meddyliol trwy gynorthwyo pobl ifanc i wneud dewisiadau iach ynglŷn â'u ffordd o fyw, a'u cyfeirio at gymorth.

Mae Gwaith Ieuenctid yn bwysig hefyd o ran cyflawni *Glasbrint ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid yng Nghymru*²² wrth iddo geisio datblygu dulliau atal integredig, arferion seiliedig ar drawma, ac ymatebion lle rhoddir y plentyn yn gyntaf, wrth ddelio â'r rhai sydd

²² <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/glasbrint-ar-gyfer-cyfiawnder-ieuenctid.pdf>


mewn perygl o droseddu. Gwyddom hefyd fod meithrin ymdeimlad o berthyn, cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu cydnerthedd, a'u cynorthwyo i ddeall yr effaith a gaiff eu hemosiynau a'u camau, yn cyfrannu'n uniongyrchol at leihau'r perygl y byddant yn dioddef cam-fanteisio neu'n cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol.

Ymhellach, bydd mynychu darpariaeth gwaith ieuenctid yn helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd a theimladau ynysig (sef pethau y dywed pobl ifanc eu bod yn eu teimlo dan fesurau'r cyfnod clo) ac yn hyrwyddo cydlyniant cymunedol, a bydd pobl ifanc yn cael eu cynorthwyo i ddeall eu hawliau, lleisio eu barn, a chymryd rhan yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Mae gwasanaethau gwaith ieuenctid yn cyfrannu'n uniongyrchol at economi Cymru, a hefyd cânt effaith anuniongyrchol trwy helpu i feithrin sgiliau sy'n werthfawr i gyflogwyr a thrwy roi dulliau 'buddsoddi i arbed' ar waith a fydd yn lleihau ymyriadau mwy costus yn nes ymlaen.

Yn olaf, mae cyfran helaeth o waith ieuenctid yn llwyddo i gyfoethogi bywydau, gan gynnig cyfle i gymryd rhan a datblygu diddordebau yn y celfyddydau, mewn diwylliant ac mewn chwaraeon.

Cynig gwaith ieuenctid cynaliadwy a saith nod llesiant Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015



Ffigur 1: Cynnig Cynaliadwy ar gyfer Gwaith Ieuenctid a saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ffynhonnell: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (2020)

7. ADEILADU MOMENTWM

“Mae’n bwysig cadw mewn cysylltiad, gan roi cyfle i bobl ifanc ddweud eu dweud wrth wneud penderfyniadau a chynllunio.”
Person ifanc.

Ers i Fwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru gael ei benodi, rydym wedi gweithio mewn ffordd gydweithredol gyda phobl ifanc, y sector gwaith ieuenctid, Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner sy’n dibynnu ar bartneriaeth gwaith ieuenctid i gyflawni eu gwaith.

Rydym wedi ceisio creu mudiad dros newid – dull arweinyddiaeth systemau – er mwyn sicrhau model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae’r sector gwaith ieuenctid a’i bartneriaid wedi ymateb gyda brwdfrydedd ac ymroddiad i’r cyfle i weithio gyda ni a’r cyfle i gyflawni’r Strategaeth Gwaith Ieuenctid.

Cylch Gorchwyl y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro
<https://llyw.cymru/bwrdd-gwaith-ieuenctid-dros-dro/cylch-gorchwyl>

Arweiniodd y pandemig at ohirio cylch gwaith polisi’r Bwrdd rhwng Mawrth a Hydref tra rhoddwyd ymdrechion ar waith i ategu ymateb gwaith ieuenctid i COVID-19. Bellach, bydd adroddiad terfynol y Bwrdd yn cael ei gyflwyno yn 2021.

Mae’r llinell amser isod yn dangos cymaint sydd wedi’i gyflawni gan y sector gwaith ieuenctid mewn cyfnod byr ers i’r Bwrdd gael ei sefydlu. Mae’n dangos momentwm clir o blaid sicrhau dyfodol hirdymor cynaliadwy i waith ieuenctid yng Nghymru.

Dyddiad	Gweithgaredd	Sylwadau
Hydref 2018	Penodi’r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro.	Keith Towler (Cadeirydd), Dusty Kennedy, Efa Gruffudd Jones, Eleri Thomas, Jo Sims, Sharon Lovell, Simon Stewart.
Hydref 2018 – Rhagfyr 2020	Cyfarfodydd y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro.	Cynhaliodd y Bwrdd 16 o gyfarfodydd mewn 2 flynedd.

Ebrill 2019	Arian ychwanegol gan y Grant Cymorth Ieuenctid ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant a Digartrefedd Ieuenctid.	Llywodraeth Cymru a drefnodd fod yr arian hwn ar gael, a sefydlwyd meini prawf diwygiedig.
24 Mehefin 2019	Cyhoeddi Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru.	
Medi 2019	Cafodd Grwpiau Cyfranogiad yn ymwneud â'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid eu sefydlu: • Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth 'Ei Werthfawrogi a'i Ddeall'. • Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth 'Datblygu'r Gweithlu'. • Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth 'Mae Pobl Ifanc yn Ffynnu'. • Grŵp Cyfranogiad y Strategaeth 'Hygyrch a Chynhwysol'.	Daw aelodau'r Grwpiau o bob rhan o'r Sector Gwaith Ieuenctid ac mae pobl ifanc yn cyfrannu at y Grwpiau.
Medi 2019	Sefydlwyd Gweithgorau ychwanegol: Yr Iaith Gymraeg. Gwaith Ieuenctid Digidol. Grŵp Marchnata.	Daw aelodau'r Grwpiau o bob rhan o'r Sector Gwaith Ieuenctid ac mae pobl ifanc yn cyfrannu at y Grwpiau.
Hydref 2019	<i>Siarad am Waith Ieuenctid</i> – dechrau cynnal sgysiau gyda phobl ifanc ynglŷn	Hwyluswyd y digwyddiadau <i>Siarad am Waith Ieuenctid</i> gyda

	â gwaith ieuenctid yng Nghymru.	phobl ifanc gan ymarferwyr gwaith ieuenctid ledled Cymru, a chafodd yr wybodaeth ei bwydo'n ôl i'r Bwrdd.
Ionawr 2020	Comisiynwyd Cyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.	Ariannwyd hyn gan Lywodraeth Cymru. Mae'r broses ddatblygu ar y gweill.
5 Chwefror 2020	Cyhoeddwyd cynlluniau gwaith ar gyfer y Grwpiau Cyfranogiad.	
Chwefror 2020	Estyn gwahoddiad i bobl ifanc gyflwyno ceisiadau i ymuno â'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro.	Gwnaed hyn mewn ymateb i gais gan bobl ifanc yn gofyn i'r Bwrdd am lais. Derbyniwyd 25 o geisiadau.
3 Mawrth 2020	Cyhoeddwyd poster ar gyfer Strategaeth Gwaith Ieuenctid 2019 a rhyddhawyd fideo yn esbonio sut mae'r strategaeth yn helpu pobl ifanc a'u gweithwyr ieuenctid.	Datblygwyd y rhain gan bobl ifanc i helpu eraill i ddeall yr hyn mae'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid yn anelu at ei wneud.
4 Mawrth 2020	Cynhadledd Gwaith Ieuenctid Cymru.	
31 Mawrth 2020	Gohirio gwaith polisi'r Bwrdd oherwydd COVID-19. Y Bwrdd yn ysgwyddo rôl arweiniol dros waith ieuenctid yn ystod y pandemig.	Cafodd y Grwpiau Cyfranogiad, a rhai grwpiau eraill, eu gohirio.
Mawrth – Mai 2020	Ymatebodd y Bwrdd i geisiadau am wybodaeth yn ymwneud â diogelu.	Dros nos, bu'n rhaid i'r sector gwaith ieuenctid droi at gyflawni ei waith

		trwy gyfryngau digidol, a chododd hyn gwestiynau newydd yn ymwneud â'r angen am gymorth.
Mawrth – Hydref 2020	Cyhoeddwyd 11 o Fwletinau Gwaith Ieuenctid Cymru, gyda ffocws ar ategu ymateb gwaith ieuenctid i COVID-19. Roedd y pynciau'n cynnwys: • Diogelu. • Gwybodaeth i Ieuenctid. • Cyfranogi. • Gwerth ac Effaith Gwaith Ieuenctid. • Cyflogadwyedd a Sgiliau. • Rhifyn arbennig – Golygydd Gwadd EYST. • Iechyd Meddwl a Llesiant. • Datblygu'r Gweithlu.	Fe'u cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda chyfraniadau gan y Bwrdd a phob rhan o'r sector.
23-30 Mehefin 2020	Wythnos Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.	Fe'i cynhaliwyd ar-lein gyda sawl cyfraniad o bob rhan o'r Sector Gwaith Ieuenctid.
Gorffennaf 2020	Gweithdy Undydd a gynhaliwyd gyda'r Sector, yn sôn am COVID-19.	Fe'i cadeiriwyd gan y Bwrdd ac fe'i cynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru trwy gyfrwng Microsoft Teams.
Gorffennaf 2020	Penodwyd cwmni ymgynghori Wavehill i	Datblygwyd y briff gan y Bwrdd Gwaith

	gynnal gwaith ymchwil yn ymwneud â'r Strategaeth Gwaith Ieuenctid (cyfuno'r hyn a wyddys am waith ieuenctid yng Nghymru) a datblygu theori ar gyfer newid.	Ieuenctid Dros Dro ac fe'i comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru. Bydd Wavehill yn ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2021.
20 Awst 2020	<i>COVID-19: Canllawiau i gefnogi gwasanaethau gwaith ieuenctid i gynyddu gweithrediadau mewn modd diogel a graddol</i>	Cyhoeddwyd y canllawiau hyn gan Lywodraeth Cymru.
Awst 2020	Cynhaliodd y Bwrdd gyfarfodydd gyda phobl ifanc a oedd wedi gwneud cais i ymuno â'r Bwrdd.	Pwrpas y cyfarfodydd hyn oedd ceisio barn ynglŷn ag effaith COVID ar bobl ifanc. Gohiriwyd y broses ymgeisio ac, yn hytrach, gwahoddwyd y bobl ifanc hyn i barhau i weithio gyda'r Bwrdd.
9 Hydref 2020	Seremoni Gwobrau Rhagoriaeth Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.	Digwyddiad digidol a gynhaliwyd eleni, trwy gyfrwng YouTube.
Hydref 2020	Y Grwpiau Cyfranogiad yn cyfarfod i ddiweddarau eu cynlluniau gwaith.	Y Grwpiau Cyfranogiad yn ailddechrau eu gwaith ar ôl i'r gohiriad ar waith polisi gael ei godi.
25 Tachwedd 2020	Cynnal cyfarfod ar y cyd rhwng y Grwpiau Cyfranogiad i adolygu'r holl gynlluniau gwaith a nodi cyd-ddibyniaethau.	Dylid cyhoeddi'r cynlluniau gwaith diwygiedig ar wefan y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro.

Rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio gweddill ein tymor yn ystod 2021 i adeiladu ar y momentwm a chyflawni ar sail y cyfeiriad y dylid ei ddilyn, y'i cyflwynir yn yr adroddiad cyntaf hwn.

Erbyn hyn, mae adeiladu model cyflawni cynaliadwy ar gyfer gwaith ieuenctid yng Nghymru yn fater o gryn frys.

Mae'n bryd cyflawni dros bobl ifanc yng Nghymru

8. GYDA DIOLCH I...

Hoffem ddiolch o galon i'r canlynol:

Yr holl bobl ifanc sydd wedi cyfrannu at y gwaith hwn.

Yr ymarferwyr a'r rheolwyr gwaith ieuenctid sy'n gweithio mewn ffordd mor greadigol yn y Grwpiau Cyfranogiad a'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen – heb eich ymroddiad chi, ni fyddai'r cynnydd a wnaed wedi bod yn bosibl.

Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.

Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru.

Aled Roberts, Comisiynydd y Gymraeg.

Chris Llewelyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Lynne Neagle, Aelod o'r Senedd, Cadeirydd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd.

Aelodau ac Ymddiriedolwyr Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS).

Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru.

Comisiynwyr Heddlu a Throseddau Cymru.

Cyngor y Gweithlu Addysg.

Estyn.

Myfyrwyr BA (Anrh) Gwaith Ieuenctid a Chymuned Prifysgol Glyndŵr.

... am eich cymorth a'ch diddordeb mewn Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

Swyddogion Cangen Ymgysylltu ag Ieuenctid Llywodraeth Cymru am eich proffesiynoldeb a'ch ymrwymiad i'r sector gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Ac ...

I'r gwirfoddolwyr, y gweithwyr cymorth ieuenctid, y gweithwyr ieuenctid a'r rheolwyr sy'n ffurfio'r gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae eich ymrwymiad i bobl ifanc y tu hwnt i bob amheuaeth.